**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Safonau

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mercher, 22 Mawrth 2023 am 1.15 pm**

**Yn Bresennol**: Mike Lewis (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

**Y Cynghorydd(wyr)**
M B Lewis

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|
| Michaela Jones | Mark Rees |
| Janet Pardue-Wood | Margaret Williams |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): L G Thomas, C Rabaiotti

---

**41 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**42 Gwahardd y cyhoedd.**

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem fusnes/eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail ei fod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes/eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 43 Apelio'r Polisi Ymddygiad Afresymol gan Gwsmeriaid.

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad i ystyried apêl o dan y Polisi Ymddygiad Afresymol Cwsmeriaid.

Roedd y Pwyllgor Safonau wedi gofyn am ragor o wybodaeth ysgrifenedig yn ei gyfarfod ar 2 Mawrth 2023. Roedd yr wybodaeth ysgrifenedig bellach ynghlwm yn Atodiad 5.

**Penderfynwyd:**

1) bod y Pwyllgor Safonau yn cadarnhau camau gweithredu'r Awdurdod Lleol wrth roi'r Polisi Ymddygiad Afresymol Cwsmeriaid ar waith;
2) bod y Swyddog Monitro yn ysgrifennu at y Tîm Cwynion Corfforaethol yn gofyn i'r cynnwys yn adran 3.2 gael ei ystyried mewn unrhyw lythyr yn y dyfodol os yw'n berthnasol.

## 44 Ceisiadau am Ollyngiad.

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad i ystyried cais am ollyngiad.

Wrth ystyried caniatáu gollyngiad, ceisiodd y pwyllgor gydbwyso budd y cyhoedd wrth atal aelodau â chysylltiadau rhagfarnol rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau, yn erbyn budd y cyhoedd o gael grŵp cynrychiadol o aelodau'r awdurdod yn gwneud penderfyniadau.

Amlinellwyd y rhesymau y tu ôl i'r cais yn yr adroddiad ac fe'u hehangwyd gan y Swyddog Monitro yn ystod trafodaeth ar y mater.

**Penderfynwyd:**

Caniatáu gollyngiad i'r Cynghorydd Stevens i aros, siarad a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig ond peidio â phleidleisio ar unrhyw fater yn ymwneud â Bil Bwyd (Cymru) a Pholisi Bwyd Cynaliadwy.

**Ni** fydd yr ollyngiad hwn yn gymwys os yw'r Cynghorydd yn ymwybodol o unrhyw effaith ar berson sydd â chysylltiad agos (o fewn ystyr paragraff 10 (2) (c) y Côd Ymddygiad) sy'n ymwneud â Bil Bwyd (Cymru) a Pholisi Bwyd Cynaliadwy ac sy'n benodol iddo.

Daeth y cyfarfod I ben am 1.44 pm

**Cadeirydd**